13 Ionawr 2009

Datganiad i'r Wasg

Edrychwch ymlaen at haf cerddorol - gallwch archebu ar gyfer Ysgol Haf Musicfest o'r 19eg Ionawr 2009!

Gwybodaeth yn dechrau .....

Mae'r cyfnod archebu ar gyfer Ysgol Haf Musicfest eleni yn dechrau ar y 19eg Ionawr, felly dyma'r amser i ddechrau meddwl ymlaen at yr haf ac i archebu lle ar gyfer wythnos ddifyr o greu cerddoriaeth. Cynhelir Ysgol Haf a Gŵyl Musicfest yn Aberystwyth o'r 25 Gorffennaf - 1 Awst 2009.

Mae MusicFest yn gyfuniad ysbrydoledig o Ŵyl Gerdd ac Ysgol Haf. Mae tîm o gerddorion a thiwtoriaid blaenllaw rhyngwladol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Artistig David Campbell, yn cynnig cyfleoedd ac hyfforddiant ym maes cerddoriaeth siambr, ynghyd â phrofiadau dysgu gwych trwy'r gyfres o gyngherddau a gyflwynir gan y tiwtoriaid eu hunain (fel artistiaid preswyl maent i gyd yn berfformwyr blaenllaw yn ogystal ag hyfforddwyr ysbrydoledig). Yn seiliedig ar y syniad o 'ddysgu trwy wrando, ymarfer a pherfformio', ceir cyrsiau ar gyfer pedwarawd llinynnol, feiolin, fiola, soddgrwth, wythawdau chwyth, ffliwt, clarinet, pres, sacsoffon, cyfansoddi, lladin/jas a'r llais. Trwy gydol yr wythnos bydd yr artistiaid prreswyl yn hyfforddi grwpiau, yn arwain gweithdai, yn rhoi dosbarthiadau meistr ac yn perfformio yng nghyngherddau'r Ŵyl. Mae'r myfyrwyr hefyd yn cael y cyfle i berfformio'n gyhoeddus ac i fwynhau mynediad yn rhad ac am ddim i holl weithgareddau'r ŵyl. Am wythnos gyfan mae pawb yn byw, yn anadlu ac yn breuddwydio am gerddoriaeth!

Dyma 'r cyrsiau sydd ar gael yn 2009 a'r tiwtoriaid preswyl sydd wedi cadarnhau hyd yma:

- **Pedwarawd Llinynnol** Tiwtoriaid: Pedwarawd Carducci
- **Feiolin** Tiwtor: Pavel Fischer
- **Fiola** Tiwtor: Graham Oppenheimer
- **Soddgrwth** Tiwtor: Nicholas Jones
- **Wythawdau Chwyth** Tiwtoriaid: John Anderson, Laurence Perkins
- **Ffliwt** Tiwtor: Philippa Davies

- **Clarinet** Tiwtor: David Campbell
- **Sacsoffon** Tiwtor: Sarah Field
- **Llais** Tiwtor: Veronica Veysey Campbell
- **Cyfansoddi** Tiwtor: John Metcalf
- **Lladin/Jas** Tiwtoriaid: Triawd Fusiones
- **Pres** Tiwtoriaid: Paul Archibald, Hugh Seenan
- **Practical Psychology** Tiwtor: Lucinda Mackworth-Young

Bydd y gwesteion ychwanegol yn cynnwys*:* **Southbank Sinfonia**, y soddgrythor **Guy Johnston**, y pianydd **Tom Poster, Jas Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, Pedwarawd Solstice, Offerynwyr Chwyth Orpheus** a llawer mwy!

Gellir archebu lle ar gyrsiau'r Ysgol Haf o'r 19eg Ionawr, trwy gysylltu â threfnydd yr Ŵyl ar musicfest@aber.ac.uk / 01970 622338 neu drwy gwblhau'r ffurflen archebu ar-lein ar wefan Musicfest, www.abermusicfest.org lle y gallwch hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y gwahanol gyrsiau. Nodwch os gwelwch yn dda er bod yr Ysgol Haf a'r Ŵyl yn dod i ben ar ddydd Sadwrn 1af Awst, bydd mynychwyr y cyrsiau yn gadael Aberystwyth ar fore dydd Sul 2 Awst.

Y ffioedd ar gyfer yr Ysgol Haf 2009 yw £380 i oedolion neu £280 i fyfyrwyr mewn addysg lawn-amser. Gellir aros mewn fflatiau hunan-arlwyol ar gampws Prifysgol Aberystwyth sydd ar gael am £145 am yr wythnos. Mae bwrsariaethau hael ar gael tan 1af Gorffennaf ar gyfer myfyrwyr llawn amser, trwy Gyfeillion Musicfest - ceir rhagor o wybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael oddi wrth Gydlynydd Musicfest sef Sophie Bennett ar musicfest@aber.ac.uk neu drwy ffonio 01970 622338.

DIWEDD/

Nodiadau i olygyddion:

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ysgol Haf a Gŵyl Musicfest 2009 oddi wrth Louise Amery ar lla@aber.ac.uk neu drwy ffonio 01970 622889. Mae ffotograffau o wyliau'r gorffennol ar gael. Cadarnheir rhaglen gyngherddau'r ŵyl erbyn mis Mawrth 2009 - gweler rhaglen ddrafft ar y wefan www.abermusicfest.org